# Rhaglen Fentora Ar-lein Genedlaethol Ymestyn yn Ehangach

Paula Griffiths, Rheolwr Partneriaeth, Ymestyn yn Ehangach

## Cefndir a chyd-destun

Lansiwyd rhaglen fentora genedlaethol ddwyieithog ar-lein Ymestyn yn Ehangach yn 2022 mewn partneriaeth â *Brightside*, â'r nod o gefnogi, hysbysu ac ysbrydoli pobl ifanc o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli i ystyried eu llwybr addysgol i bob math o addysg. Mae'r rhaglen fentora'n alinio'n agos â rhaglen allgymorth Ymestyn yn Ehangach trwy ddarparu cefnogaeth hyblyg un-i-un ar-lein i ddysgwyr sydd rhwng 14 a 19 oed. Mae'r gefnogaeth ddiduedd a phersonol ar-lein yn rhaglen hyblyg sy'n rhoi cyfle i'r rhai sy'n cael eu mentora ddatblygu eu dealltwriaeth o'r gwahanol lwybrau sydd ar gael iddynt a chipolwg ar fywyd myfyrwyr. Mae mentora yn digwydd trwy blatfform diogel gyda gweithdrefnau diogelu clir i sicrhau bod y berthynas rhwng y mentor a'r sawl sy'n cael ei fentora yn ddiogel er mwyn sicrhau'r budd mwyaf i bawb. Mae swyddogion prosiect rhanbarthol yn annog mentoriaid a'r rhai sy'n cael eu mentora i rannu themâu wythnosol a chychwyn sgwrs, yn ogystal â chynnig hyfforddiant dewisol ac adnoddau i ddarparu'r profiad mentora gorau.



Ystyriaeth bwysig oedd cynnig y dewis i siaradwyr Cymraeg gael eu mentora yn gyfan-gwbl yn eu mamiaith mewn gofod diogel ar-lein. Gall defnyddwyr y Gymraeg newid yn hawdd rhwng fersiynau Cymraeg a Saesneg. Mae hyn hefyd yn cynorthwyo dysgwyr Cymraeg i fagu hyder ac yn annog defnyddio'r iaith mewn sgyrsiau rhwng mentoriaid a'r rhai sy'n cael eu mentora, sy'n cyd-fynd â strategaeth 'Cymraeg 2050' Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i 1 filiwn erbyn 2050.

## Pŵer Mentora

Mae mentoriaid yn cael eu recriwtio o golegau a phrifysgolion ledled Cymru. Maent yn cael eu talu'r cyflog byw cenedlaethol, yn cwblhau'r gwiriad datgelu a gwahardd uwch (DBS) angenrheidiol, ac yn derbyn hyfforddiant cyn cael eu paru â 3-6 o bobl ifanc o ysgolion neu golegau blaenoriaeth Ymestyn yn Ehangach. Mae'r rhai sy'n cael eu mentora'n cael asesiad sylfaenol i fesur eu dealltwriaeth o lwybrau addysgol ac yn cael eu paru â mentoriaid sy'n rhannu diddordebau tebyg. Mae'r rhaglen fentora'n cyflawni tri phrosiect.

- **Prosiect mentora craidd -** gyda'r rhai sy'n cael eu mentora ym mlynyddoedd 11-13. Caiff pob un eu paru â mentor, a gallant ymuno â dosbarthiadau ar-lein wythnosol am ddim ar wahanol bynciau i'w helpu i symud ymlaen i addysg bellach neu uwch. Mae

Ymestyn yn Ehangach hefyd yn eu cefnogi i fynychu unrhyw ddiwrnodau agored mewn prifysgolion yng Nghymru.

- **Prosiect mentora STEM** – y rhai sy'n cael eu mentora ym mlynyddoedd 9 a 10, sydd â diddordeb mewn gyrfaoedd ym maes STEM. Cânt eu paru â mentor STEM, byddant yn ymweld â diwydiant lleol, yn cwrdd ag arbenigwyr yn y diwydiant, ac yn cael cynnig lle mewn dosbarthiadau meistr byr ar bynciau fel chwaraeon, mathemateg, marchnata digidol, a deallusrwydd artiffisial (AI).
- **Prosiect gofalwyr ifanc** - gofalwyr ifanc 14-25 oed. Mae'r prosiect 6 wythnos yn paru pob unigolyn â mentor sydd â phrofiad o'r system ofal ac yn cynnig hyfforddiant dewisol i oresgyn rhwystrau addysgol, ynghyd â chefnogaeth i fynychu unrhyw ddiwrnod agored mewn prifysgol yng Nghymru.

**Effaith a chwmpas**

Lansiwyd y rhaglen beilot yn 2022, gyda 315 o unigolion yn cael eu paru â mentor. Mae'r rhaglen wedi cynyddu ers hynny ac mae Ymestyn yn Ehangach bellach yn cynnig 8 prosiect yn ystod y flwyddyn, gyda thros 1,000 o bobl yn cael eu paru â mentor rhwng 2023 a 2024, a 54% o'r rheiny'n ddysgwyr sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn AU. Caiff effaith ei fesur yn feintiol ar sail y pellter a deithiwyd gan fentoriaid a'r rhai sy'n cael eu mentora trwy arolygon gwaelodlin ac ymadael, ac yn ansoddol trwy fforymau a sesiynau gwerthuso.

"….does dim amheuaeth na wnaeth mentora wahaniaeth i ymagweddau'r rhai roeddwn i'n eu mentora tuag at fynd i brifysgol. I ddechrau, roedden nhw i gyd yn ymddangos yn ansicr, hyd yn oed yn ofnus ynghylch y syniad o brifysgol – roedd rhai'n mynegi pryderon ynghylch sut bydden nhw'n ymdopi, rheoli arian, neu reoli eu hastudiaethau…. Wrth i'r sesiynau fynd rhagddynt, sylwais ar newid gwirioneddol o ran ymagwedd. Aeth un o ddweud, 'Dydw i ddim yn meddwl bod prifysgol ar gyfer rhywun fel fi,' i fynd ati i chwilio am gyrsiau a mynychu diwrnodau agored, oedd yn ysbrydoledig." Mentor




"Mae bod yn rhan o Brosiect Mentora Ymestyn yn Ehangach wedi bod yn fuddiol iawn i'r disgyblion ac i ni fel ysgol. I'r disgyblion, mae'r prosiect wedi rhoi cyfleoedd newydd i ddatblygu sgiliau ac agweddau, ac mae wedi helpu i feithrin eu hyder a'u llwyddiant academaidd. Trwy gydweithio ar brosiectau o'r fath, maent wedi gallu dysgu am eu llwybrau gyrfa a'u paratoi ar gyfer y dyfodol, yn ogystal â rhoi pwrpas a chymhelliant iddynt o ran eu haddysg…. Mae'r prosiect hefyd wedi hyrwyddo mwy o gyswllt rhwng y disgyblion, eu hathrawon, a'r gymuned ehangach, gan feithrin perthnasoedd cryfach ac ymrwymiad i weithio tuag at nodau cyffredin.
Mae'r prosiect wedi helpu i wella presenoldeb a meithrin ymagwedd gadarnhaol at addysg, yn ogystal â rhoi teimlad o gydnabyddiaeth a llwyddiant i bawb sy'n ymwneud â'r ysgol."

Athro

> "Rydw i wedi tyfu llawer trwy gydol y prosiect hwn - rydw i wedi datblygu sgiliau cyfathrebu llawer gwell sy'n hynod bwysig i mi a fy nodau gyrfa. Yn wir, y prosiect mentora hwn oedd un o'r prif bwyntiau trafod a phrofiadau sydd wedi fy ngalluogi i gael interniaeth gystadleuol iawn gydag Amgueddfa Hanes Naturiol Prifysgol Rhydychen ar gyfer yr haf!"
>
> Unigolyn a gafodd ei fentora

Yn seiliedig ar adborth o'r arolwg, nododd pawb oedd wedi cael eu mentora fod ganddyn nhw fwy o hyder yn yr hyn yr oeddent yn mynd i'w wneud ar ôl gadael y coleg, ac roedd dros hanner yn teimlo bod ganddynt well dealltwriaeth o sut i wneud cais i'r sefydliad AU o'u dewis

Ar y prosiect gofalwyr ifanc, gofynnodd 90% o'r cyfranogwyr am y camau nesaf i AU neu gyflogaeth.




> "....mae fy hyder academaidd wedi cynyddu'n sylweddol....Rwyf wedi datblygu'r berthynas agos honno i deimlo'n gyfforddus i ofyn unrhyw gwestiynau ac i fod yn onest am fy mhryderon. Mae'r cyfleoedd y mae'r prosiect yn eu cynnig yn anhygoel ac wedi fy helpu i wneud penderfyniadau ar gyfer fy nyfodol nad oeddwn wedi'u hystyried yn y gorffennol. Rwy'n teimlo'n fwy hyderus i wneud penderfyniadau ynglŷn â fy addysg bellach."
>
> Unigolyn a gafodd ei fentora

Mae Ymestyn yn Ehangach wedi ymrwymo i wneud addysg yn wirioneddol gynhwysol; trwy barhau i ehangu ein gwaith allgymorth a datblygu ein rhaglen fentora, ein nod yw creu effaith barhaol ar fywydau pobl ifanc, gan eu helpu i ddatgloi cyfleoedd a allai fod wedi ymddangos y tu hwnt i'w cyrraedd ar un adeg.

Am ragor o wybodaeth, gwyliwch ein fideo neu ewch i: www.reachingwider.ac.uk/cy/

Mae'r astudiaeth achos hon wedi'i chynhyrchu a'i rhannu fel rhan o brosiect QAA Cymru a ariennir gan Medr: Galluogi dysgwyr i symud ymlaen i addysg uwch a gwneud cynnydd.

Gallwch ganfod mwy am y prosiect ar wefan QAA Cymru.

QAA CYMRU

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research